# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 14 Mai 2013** |
| Amser: | **09:01 - 10:42** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_14_05_2013&t=3350&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Joyce Watson**<br>**Elin Jones** |
| Tystion: | **Ian Thomas, Scope**<br>**Dr John Cox, Deisebydd**<br>**Lynne Neagle** |
| Staff y Pwyllgor: | **Naomi Stocks (Clerc)**<br>**Sian Giddins (Dirprwy Glerc)**<br>**Matthew Richards (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. Deisebau newydd

### 2.1 P-04-478 Pecyn gwybodaeth syml i bawb yng Nghymru yn esbonio sut y gallant sefyll fel ymgeisydd

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth i ofyn am ei barn ar y ddeiseb.

### 2.2 P-04-479 Deiseb Adran Pelydr-X ac Uned Mân Anafiadau Ysbyty Tywyn

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr i ofyn am ei farn ar y ddeiseb, gan anfon copi at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

### 2.3 P-04-480 Mynd i'r afael â Safon Tai Myfyrwyr yn y Sector Preifat

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Tai ac Adfywio i ofyn am ei farn ar y ddeiseb.

Nododd y Pwyllgor y posibilrwydd ei fod am edrych ar y mater yn fanylach ar ôl cael ymateb gan y Gweinidog.

Nododd y Cadeirydd a Russell George AC eu bod ill dau wedi cwrdd â'r deisebwyr am y mater.

### 2.4 P-04-481 Cau'r bwlch ar gyfer disgyblion byddar yng Nghymru

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn am ei farn ar y ddeiseb.

### 2.5 P-04-482 Hysbysfyrddau cyhoeddus ar draws Cymru i roi gwybod i'r cyhoedd pwy yw eu cynrychiolwyr gwleidyddol

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth i ofyn am ei barn ar y ddeiseb.

### 2.6 P-04-483 Polisi Cymraeg Clir / Plain English ar gyfer pob cyfathrebiad y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y canlynol:

- Yr Ysgrifennydd Parhaol i ofyn am ei farn ar y ddeiseb gan ei bod yn ymwneud â Llywodraeth Cymru; a
- Phrif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ofyn am ei barn ar y ddeiseb.

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-462 Gwahardd codi baner y Deyrnas Unedig ar adeiladau swyddogol yng Nghymru

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Prif Weinidog yn gofyn am eglurhad o'r polisi ar faneri, ac yn benodol am y polisi ynghylch y faner Ewropeaidd.

### 3.2 P-04-319 Deiseb ynghylch Traffig yn y Drenewydd

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ofyn am ragor o wybodaeth am yr oedi yn y gwaith adeiladu a sut y bydd y tagfeydd traffig yn cael eu datrys yn y cyfamser.

### 3.3 P-04-426 Cyflwyno terfyn cyflymder gorfodol o 40mya ar ffordd yr A487 ym Mlaen-porth, Ceredigion

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i:

- aros am ganlyniadau'r adolygiad o derfyn cyflymder; ac
- ysgrifennu at y deisebydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau.

Cynigiodd Joyce Watson AC gwrdd â'r deisebwyr ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn ddiweddarach.

### 3.4 P-04-459 Cysylltiad rheilffordd uniongyrchol o Faes Awyr Caerdydd i ganol Caerdydd a gorllewin Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i ofyn am farn y deisebwr am yr ymatebion.

### 3.5 P-04-468 Pryderon am Ddiogelwch Ffordd A48 Cas-gwent

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i:

- aros am ganlyniadau'r adolygiad o derfyn cyflymder; ac
- ysgrifennu at y deisebydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau.

### 3.6 P-04-398 Ymgyrch dros gael cofrestr ar gyfer pobl sy’n cam-drin anifeiliaid yng Nghymru

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i gael briff cyfreithiol am y ddeiseb ac ystyried cau'r ddeiseb ar ôl i hyn gael ei ystyried.

### 3.7 P-04-399 Arferion lladd anifeiliaid

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i ofyn am eglurhad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd o'r amserlen ar gyfer ymdrin â'r mater.

**3.8 P-04-433 Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i ofyn am eglurhad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd o'r amserlen ar gyfer ymdrin â'r mater.

**3.9 P-04-402 Gweddïau Cyngor**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth gan rannu gohebiaeth a gafwyd gan Un Llais Cymru i dynnu sylw at y ffaith eu bod o blaid yr angen i Lywodraeth Cymru gynhyrchu canllawiau cyfreithiol; ac
- aros am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog.

**3.10 P-04-400 Safon Ansawdd NICE ym Maes Iechyd Meddwl**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb gan ei bod wedi'i nodi mewn gohebiaeth flaenorol bod y Safonau Ansawdd yn cael eu mabwysiadu.

**3.11 P-04-367 Achub ein Gwasanaethau Ysbyty**

**3.12 P-04-394 Achub ein Gwasanaethau - Ysbyty Tywysog Philip**

**3.13 P-04-430: Y bwriad i gau Uned Mân Anafiadau Dinbych-y-pysgod**

**3.14 P-04-431 Preswylwyr Sir Benfro yn erbyn Toriadau i Wasanaethau Iechyd**

**3.15 P-04-455 Achub adran achosion brys yn Ysbyty'r Tywysog Philip**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth am y deisebau a chytunodd i:

- grwpio deiseb P-04-455 gyda'r deisebau eraill sy'n gysylltiedig â Hywel Dda;
- ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ynghylch Uned Mân Anafiadau Dinbych-y-pysgod yn gofyn a fyddent yn gallu bodloni'r amodau a bennir gan y cyngor iechyd cymuned wrth ddarparu gwasanaeth mân anafiadau yn Ninbych-y-pysgod; ac
- ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau yn Ysbyty'r Tywysog Philip ac Ysbyty Llwynhelyg a gofyn iddo roi gwybod i'r Pwyllgor pan fydd penderfyniad terfynol wedi'i wneud.

### 3.16 P-04-417 Achubwch Draeth Morfa ac ataliwch Lwybrau Troed Cyhoeddus 92 a 93 rhag cau

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at yr Arolygiaeth Gynllunio yn gofyn pryd mae disgwyl i'r ymchwiliad ddechrau, a'r dyddiad y disgwylir ei gwblhau.

### 3.17 P-04-461 Achub Pwll Padlo Pontypridd

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon i ofyn am ei farn ar y ddeiseb; a
- cheisio barn y deisebwr am yr ohebiaeth gan Gyngor Rhondda Cynon Taf.

O dan Reol Sefydlog 17.47, gohiriodd y Pwyllgor y cyfarfod i aros am y tystion.

## 4. P-04-442 Sicrhau cymorth da i blant anabl a'u teuluoedd sy’n agos i’w cartrefi: Sesiwn Dystiolaeth

Atebodd y deisebwr gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

## 5. P-04-472 Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn ddeddf: Sesiwn Dystiolaeth

Atebodd y deisebwr a Lynne Neagle AC gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i Elin Jones AC am ei gwaith ar y Pwyllgor Deisebau.